



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Cymrawd

Canllawiau i Ganolwyr sy'n ysgrifennu
Datganiad Ategol

Addaswyd o ganllawiau AU Ymlaen

Cymrodoriaeth - Canllawiau ar y Datganiad Ategol

Diolch i chi am gytuno i ddarparu un o'r ddau ddatganiad ategol sydd eu hangen i gadarnhau a chymeradwyo cais am Gymrodoriaeth. Mae'r canllawiau hyn a'r templed cysylltiedig (**dogfen Word ar wahân**) wedi'u llunio i'ch helpu i strwythuro eich datganiad ategol i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Swyddfa Academaidd yn rhan o Gynllun DPP PCYDDS, fel yr eglurir isod.

Beth yw swyddogaeth y datganiad ategol?

Sylwch nad yw datganiad sy'n cefnogi cais am Gymrodoriaeth yr un peth â geirda ar gyfer cais am swydd. Mae dyfarnu Cymrodoriaeth yn seiliedig ar gydnabyddiaeth gan gymheiriaid o arfer proffesiynol ac felly gofynnir i chi gadarnhau a chymeradwyo'r cais hwn fel cymheiriad gwerthfawr sydd ag arbenigedd dysgu ac addysgu mewn addysg uwch (AU).

Yn ystod proses adolygu'r Gymrodoriaeth bydd y ddau ddatganiad ategol annibynnol a ddarperir gan y canolwyr yn cael eu defnyddio i gadarnhau bod y cyflwyniad yn adlewyrchiad teg a chywir o arfer addysg uwch yr ymgeisydd.

Ai fi yw'r person iawn i ddarparu datganiad ategol ar gyfer yr ymgeisydd?

Mae angen i chi fod â phrofiad cyfredol neu ddiweddar o weithio mewn addysg uwch a bod yn gyfarwydd â PSF 2023; er enghraifft fel deiliad un o'r pedwar categori o Gymrodoriaeth, er nad yw hyn yn hanfodol.

Dylai canolwyr fod yn staff profiadol a ddylai allu gwneud sylwadau gwybodus, a chadarnhau, o brofiad uniongyrchol, bod cais yr ymgeisydd yn adlewyrchiad teg a chywir o'i arfer mewn addysg uwch. Dylech allu cadarnhau ei fod yn dangos gofynion meini prawf Disgrifydd 2 y [Fframwaith Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch](#) (PSF 2023).

Mae'r cais am Gymrodoriaeth (FHEA) yn seiliedig ar arfer AU cyfredol a diweddar (fel arfer o fewn y 3 blynedd diwethaf). Os nad ydych bellach yn gweithio gyda'r ymgeisydd, mae'n bwysig eich bod yn gyfarwydd â'i arfer diweddar. Mae'n ofynnol i chi nodi yn y templed pa mor hir rydych chi wedi gweithio gyda'ch gilydd.

Sylwch y dylai'r datganiadau ategol ar gyfer ceisiadau am Gymrodoriaeth adlewyrchu perthnasoedd proffesiynol; h.y. ni ddylent fod gan aelodau o'r teulu nac yn seiliedig ar gyfeillgarwch personol. Y datganiad fydd eich adroddiad annibynnol a dilys i gefnogi'r cais.

Os ydych o'r farn, ar ôl darllen y canllawiau hyn, nad ydych mewn sefyllfa i roi datganiad ategol, yna dylech wrthod y cais.

Gofynion Disgrifydd 2 y Fframwaith Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu a chefnogi Dysgu mewn Addysg Uwch (PSF 2023)

Bydd unigolion yn gallu darparu tystiolaeth o'u harfer effeithiol gyda dysgwyr, sy'n cynnwys ehangder a dyfnder, gan eu galluogi i ddangos holl Ddimensiynau PSF 2023.

Rhaid i holl brofiad a thystiolaeth yr ymgeisydd a gynhwysir yn y cais ymwneud â darpariaeth AU, megis:

- + lefel 4 neu uwch y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ) yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, neu gyfatebol;
- + lefel 7 neu uwch Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF) ar y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban (FQHEIS), neu gyfatebol;
- + cylch cyntaf neu uwch Fframwaith Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop (QF-EHEA);
- + lefel 5 neu uwch Fframwaith Cymwysterau Awstralia (AQF) neu gyfatebol;
- + lefel 5 neu uwch Fframwaith Cymwysterau Seland Newydd neu gyfatebol;
- + fframweithiau addysg uwch cyfatebol eraill;
- + yn ogystal gellir ystyried gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar gefnogi dysgwyr o fewn cyd-destun Addysg Uwch fel tystiolaeth sy'n cyfateb i'r fframweithiau addysg uwch uchod, ar yr amod bod y dysgwr(wyr) wedi'u cofrestru ar Gymhwyster Addysg Uwch;
- + gellir hefyd ystyried cyflwyno datblygiad proffesiynol parhaus nad yw wedi'i achredu i staff academiaidd a staff cymorth dysgu fel tystiolaeth sy'n cyfateb i'r fframweithiau addysg uwch.

Er gwybodaeth, mae meini prawf Disgrifydd 2 (D2) PSF 2023 wedi'u nodi isod:

Mae D2 yn addas ar gyfer unigolion y mae eu harfer gyda dysgwyr yn cynnwys ehangder a dyfnder, gan eu galluogi i ddangos tystiolaeth o'r holl Ddimensiynau. Dangosir arfer effeithiol o ran addysgu a/neu gefnogi dysgu o ansawdd uchel drwy dystiolaeth o'r canlynol:

D2.1 Defnydd o bob un o'r pum Gwerth Proffesiynol

- + V1 Parchu dysgwyr unigol a grwpiau amrywiol o ddysgwyr
- + V2 Hyrwyddo ymgysylltu â dysgu a chyfle teg i bawb gyrraedd eu potensial
- + V3 Defnyddio ysgolheictod, neu ymchwil, neu ddysgu proffesiynol, neu ddulliau eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel sail ar gyfer arfer effeithiol
- + V4 Ymateb i'r cyd-destun ehangach y mae addysg uwch yn gweithredu o'i fewn, gan gydnabod goblygiadau ar gyfer arfer
- + V5 Gweithio gydag eraill i wella arfer

D2.2 Cymhwyso pob un o'r pum math o Wybodaeth Graidd

- + K1 sut mae dysgwyr yn dysgu, yn gyffredinol ac o fewn pynciau penodol
- + K2 dulliau o addysgu a/neu gefnogi dysgu, sy'n briodol ar gyfer pynciau a lefel astudio
- + K3 gwerthusiad beirniadol fel sail ar gyfer arfer effeithiol
- + K4 defnydd priodol o dechnolegau digidol a/neu dechnolegau eraill, ac adnoddau ar gyfer dysgu
- + K5 gofynion ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd, a'u goblygiadau ar gyfer arfer.

D1.3 Arfer effeithiol a chynhwysol ym mhob un o'r pum Maes Gweithgaredd

- + A1 Dylunio a chynllunio gweithgareddau a/neu raglenni dysgu
- + A2 Addysgu a/neu gefnogi dysgu drwy ddulliau ac amgylcheddau priodol
- + A3 Asesu a rhoi adborth ar gyfer dysgu
- + A4 Cefnogi ac arwain dysgwyr
- + A5 Gwella arfer trwy eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hun.

Felly, ar gyfer dyfarniad Cymrawd, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos bod ei arfer AU yn amlygu'r holl Werthoedd Proffesiynol, Gwybodaeth Graidd a Meysydd Gweithgaredd PSF 2023.

Paratoi i ysgrifennu eich Datganiad Ategol

Yn gyntaf, mae angen i'r ymgeisydd ddarparu ei Adroddiad o Arfer Proffesiynol ar eich cyfer. Darllenwch yr adroddiad hwn cyn i chi ddechrau ysgrifennu eich Datganiad Ategol i wirio ei gywirdeb. Efallai yr hoffech hefyd gyfeirio at y [wefan](#) am ragor o wybodaeth am AU Ymlaen a/neu yn benodol am ddod yn [Gymrawd](#).

Fformat y Datganiad Ategol

Darperir templed i chi gwblhau eich Datganiad Ategol. Mae copi o'r templed wedi'i gynnwys yn y canllawiau hyn er gwybodaeth. Mae'r templed ar gael fel dogfen Word a dylid ei gwblhau yn y fformat hwn. Ni ellir derbyn dogfennau wedi'u sganio neu rai sy'n cynnwys delwedd wedi'i sganio.

Ar y cyd â meini prawf Disgrifydd 2 PSF 2023, fel canllaw, dylech wneud sylwadau am y canlynol yn eich Datganiad Ategol:

- eich profiad personol eich hun o arfer AU diweddar ac effeithiol yr ymgeisydd;
- os ydych wedi bod yn arsylwi ar waith addysgu a / neu gefnogi dysgu'r ymgeisydd yn rhan o broses arsylwi cymheiriaid, defnyddiwch enghreifftiau perthnasol o hyn;
- unrhyw arfer cynhwysol gan yr ymgeisydd a/neu gyfraniad i ddatblygiadau o ran addysgu a/neu gefnogi dysgu yn ei gyd-destun fel y bo'n briodol;
- eich safbwynt ar yr enghreifftiau ymarferol a ddarperir yn y cais i ddangos gofynion y Gymrodoriaeth.

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf ac nid ydych yn gallu darparu'r Datganiad Ategol yn y Gymraeg neu'r Saesneg, gwnaiff y Swyddfa Academaidd/AU Ymlaen dderbyn cyfieithiad Cymraeg neu Saesneg ardystiedig o'ch datganiad. Eich cyfrifoldeb chi yw darparu'r

cyfieithiad ardystiedig ar gyfer yr ymgeisydd a bydd gofyn i chi gytuno a derbyn y Datganiad yn Nhempled y Datganiad Ategol ar ôl ei gwblhau.

Ar ôl cwblhau eich Datganiad Ategol

Ar ôl i chi gwblhau Templed y Datganiad Ategol, dychwelwch ef i'r **ymgeisydd** ar ffurf PDF. Bydd yr ymgeisydd yn uwchlwytho'r ddau Ddatganiad Ategol gan bob un o'i ganolwyr trwy **borth MyAdvanceHE**.

Proses Sicrhau Ansawdd

Fel rhan o'r broses, gofynnir i chi gadarnhau eich bod wedi ysgrifennu'r Datganiad Ategol eich hun a bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych wedi'i hysgrifennu'n benodol ar gyfer yr ymgeisydd hwn.

Fel rhan o brosesau sicrhau ansawdd parhaus y Swyddfa Academaidd/AU Ymlaen, mae'r Swyddfa Academaidd/AU Ymlaen yn gwirio Datganiadau Ategol fel mater o drefn am ddilysrwydd unigol drwy adolygiad testunol yn Turnitin.com. Yn ogystal â'r defnydd o feddalwedd gwrth-lên-ladrad, cysylltir â rhai unigolion i gadarnhau mai'r Datganiad Ategol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd trwy **MyAdvance HE** yw'r datganiad a baratowyd ac a gwblhawyd ganddyn nhw.

Os amheuir uniondeb proffesiynol y Datganiad Ategol, ni chaiff y datganiad ei dderbyn.

Cymrodoriaeth

Templed Datganiad Ategol

Eich Enw	
Enw'r Ymgeisydd	
Eich sefydliad/corff/arall	
Eich rôl bresennol	
Cyfeiriad E-bost	
Eich statws Cymrodoriaeth (os yw'n briodol)	
Perthynas â'r Ymgeisydd	
Pa mor hir ydych chi wedi bod yn gweithio gyda'r Ymgeisydd (nodwch y dyddiadau)	
Datganiad	Trwy gyflwyno eich Datganiad Ategol, rydych yn cadarnhau bod cyflwyniad yr ymgeisydd yn ymwneud â'i arfer proffesiynol mewn addysg uwch ac mai eich gwaith chi eich hun yw eich datganiad a'i fod wedi'i ysgrifennu'n benodol ar gyfer yr ymgeisydd hwn. Os amheuir uniondeb proffesiynol y Datganiad Ategol, ni chaiff ei dderbyn. Cadarnhaf fy mod wedi darllen ac yn cytuno â'r datganiad uchod: Dyddiad:

Datganiad Ategol

Rhowch eich datganiad yn yr adran isod i gadarnhau a chymeradwyo cyflwyniad yr ymgeisydd am Gymrodoriaeth. Gofynnir i chi roi sylwadau ar arfer diweddar yr ymgeisydd mewn addysg uwch (fel arfer o fewn y 3 blynedd diwethaf), gan roi enghreifftiau i gefnogi eich datganiad lle bo modd.

Drwy gwblhau'r Datganiad Ategol hwn rydych yn cadarnhau eich bod wedi darllen Canllawiau AU Ymlaen ar gyfer canolwyr sy'n ysgrifennu Datganiad Ategol. Ar y cyd â meini prawf Disgrifydd 2, fel canllaw, dylech wneud sylwadau am y canlynol yn eich Datganiad Ategol:

- + eich profiad personol eich hun o arfer AU diweddar ac effeithiol yr ymgeisydd;
- + os ydych wedi bod yn arsylwi ar waith addysgu a / neu gefnogi dysgu'r ymgeisydd yn rhan o broses arsylwi cymheiriaid, defnyddiwch enghreifftiau perthnasol o hyn;
- + unrhyw arfer cynhwysol gan yr ymgeisydd a/neu gyfraniad i ddatblygiadau o ran addysgu a/neu gefnogi dysgu yn ei gyd-destun fel y bo'n briodol;
- + eich safbwynt ar yr enghreifftiau ymarferol a ddarperir yn y cais i ddangos gofynion y Gymrodoriaeth.

Fel arfer bydd dwy ochr A4 yn ddigon ar gyfer y categori hwn o Gymrodoriaeth



Contact us

Email: communications@advance-he.ac.uk

Website: www.advance-he.ac.uk

🐦 in f @AdvanceHE

Advance HE helps HE and research be the best they can be.

We are a member-led, sector-owned charity that works with institutions and higher education across the world to improve higher education for staff, students and society. We are experts in higher education with a particular focus on enhancing teaching and learning, effective governance, leadership development and tackling inequalities through our equality, diversity and inclusion (EDI) work.

Our strategic goals to enhance confidence and trust in HE, address inequalities, promote inclusion and advance education to meet the evolving needs of students and society, support the work of our members and the HE sector.

We deliver our support through professional development programmes and events, Fellowships, awards, student surveys and research, providing strategic change and consultancy services and through membership (including accreditation of teaching and learning, equality charters, knowledge and resources).

Advance HE is a company limited by guarantee registered in England and Wales no. 04931031. Company limited by guarantee registered in Ireland no. 703150. Registered as a charity in England and Wales no. 1101607. Registered as a charity in Scotland no. SC043946. Registered Office: Advance HE, Innovation Way, York Science Park, Heslington, York, YO10 5BR, United Kingdom.

© 2023 Advance HE. All rights reserved.

No part of this publication may be reproduced or transmitted in any form or by any means, electronic or mechanical, including photocopying, recording, or any storage and retrieval system without the written permission of the copyright owner. Such permission will normally be granted for non-commercial, educational purposes provided that due acknowledgement is given.

The Advance HE logo should not be used without our permission. To request copies of this report in large print or in a different format, please contact the Marketing and Communications Team at Advance HE: communications@advance-he.ac.uk